

**Atodiad 1**

Darpariaethau	Disgrifiad	Darpariaeth Mewn Grym	Swyddog Cyfrifol	Camau Paratoi / Adnoddau	Amserlen
<p><b>Rhan 1 Etholiadau</b></p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ymestyn yr Etholfraint i oedran 16 i fyny ac hefyd pleidleiswyr tramor cymwys . Dyletswydd i godi ymwybyddiaeth o’r hawl.</li> <li>2. Hawl i swyddogion Cyngor sefyll etholiad heb ofyn iddynt ymddiswyddo os nad ydynt yn llwyddiannus ( eithrir swyddogion mewn swyddi gwleidyddol gyfyngedig) .</li> <li>3. Hawl i Gyngor ddewis trefn Pleidleisio Mwyafrifol neu STV.</li> </ol>	<p>Mewn grym</p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1,2 Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ( Swyddog Monitro)</li> <li>3. Prif Weithredwr.</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gan ddefnyddion arian grant i gyflogi staff rydym wedi datblygu modelau cyfathrebu a hyrwyddo i barhau gyda codi ymwybyddiaeth i’r dyfodol.</li> <li>2. Mae’r newidiadau yma wedi eu hymgorffori yn y systemau etholiadol.</li> <li>3. Mae hyn yn berthnasol i etholiadau 2027 ond mae cyfnod arweiniol petai y Cyngor am ystyried adolygiad.</li> </ol>	<p>1 a 2 – parhaol</p> <p>3. Adrodd l'r Cyngor Llawn ym Mis Hydref ar y dewisiadau.</p>
<p><b>Rhan 2 Pennod 1 Pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol</b></p>	<p>Rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Brif Gyngor a rhai Cynghorau Tref a Chymuned Cymwys. Mae Cyngor yn ddibynnol ar hawl statudol i wneud unrhyw weithgaredd. Mae’r ddarpariaeth yma yn rhoi pŵer cyffredinol i weithredu heb ei gyfyngu i swyddogaeth benodol.</p>	<p>Mewn grym</p>	<p>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ( Swyddog Monitro)</p>	<p>Nodyn Briffio Adrannau ac Aelodau Cabinet</p>	<p>Cwblhawyd</p>

<p><b>Rhan 3 Hybu Mynediad at Lywodraeth Leol,</b></p>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Hawl i gynnal cyfarfodydd ffurfiol ar sail "hybrid" a rhithiol ond mae angen mabwysiadu Polisi</li> <li>2. Rhoi hawl mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol</li> <li>3. Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau.</li> <li>4. Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau</li> <li>5. Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad</li> <li>6. Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau</li> <li>7. Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd.</li> <li>8. Gofyn cyhoeddi Canllawiau i'r Cyfansoddiad</li> </ol>	<p>Mewn grym</p>	<p>Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</p> <p>8 - Swyddog Monitro</p>	<p>Cam 1 – 3 wedi eu gweithredu penderfyniad Cyngor a Cabinet Rhagfyr 2021</p> <p>7 Gwe ddarlledu yn weithredol yn unol a statud.</p> <p>4 a 5 Strategaeth Cyfranogiad yn cael ei baratoi yn unol a'r amserlen.</p> <p>6. Cynllun Deisebau cael ei baratoi yn unol a'r amserlen.:</p> <p>7 Gwe ddarlledu yn weithredol</p> <p>8. Arweiniad i'r Cyfansoddiad i'w gyhoeddi yn unol a'r amserlen.</p>	<p>4 Strategaeth wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym Mis Mawrth 2023 yn dilyn proses ymgynghori gyhoeddus . Mae trefniadau mewn lle i gyhoeddi'r wybodaeth ar y safle we.</p> <p>6.Cynllun Deisebau wedi ei fabwysiadu gan Cyngor yn Rhagfyr 2022. Mae trefniadau mewn lle i gyhoeddi'r wybodaeth ar y safle we.</p> <p>8. Mae'r gwaith o greu dogfen ddrafft wedi ei gwblhau a bwriedir cynnal cyfnod byr o ymgynghori cyn cwblhau a chyhoeddi y Canllawiau erbyn Canol Gorffennaf</p>
--	---	------------------	---	--	--

<b>Rhan 4 Gweithrediaethau, Aelodau, Swyddogion a Phwyllgorau Awdurdodau Lleol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Sefydlu swydd dan y disgrifiad "Prif Weithredwr" ar sail statudol gyda cyfrifoldebau penodol.</li> <li>2. Caniatáu penodi aelodau fel cynorthwyon Aelodau Cabinet</li> <li>3. Caniatáu rhannu swyddi aelodau Cabinet</li> <li>4. Caniatáu rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion</li> <li>5. Arweinyddion Grwpiau a chyfrifoldeb statudol am ymddygiad eu haelodau</li> </ol> <ol style="list-style-type: none"> <li>6. Gosod adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau ar sail statudol.</li> </ol>	Mewn grym ac eithrio 4	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Pennaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol</li> </ol> <ol style="list-style-type: none"> <li>2,6 Swyddog Monitro</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1.Wedi ei weithredu</li> <li>2-3 Addasiadau Cyfansoddiadol wedi eu cymeradwyo</li> <li>4.Angen rheoliadau</li> <li>5.Protocol drafft yn cael ei baratoi mewn ymgynghoriad ag Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a mabwysiadu gan y pwyllgor Safonau.</li> <li>6.Pwyllgor Safonau eisoes yn cael ei baratoi a chyflwyno i Cyngor Llawn</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>5.Pwyllgor Safonau i wedi mabwysiadu Protocol a gytunwyd gyda Arweinyddion Grwpiau</li> </ol>
<b>Rhan 5 Cydweithio gan Brif Gynghorau</b>	<p>Pŵer gweinidogion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig ("CJC's") . Mae'r rhain yn fath newydd o gorff llywodraeth leol. Byddent yn gorfforaethau gyda statws cyfreithiol eu hunain.</p> <p>Sefydlwyd 4 Cyd Bwyllgor Corfforedig gan gynnwys Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd. Mae ganddo swyddogaethau paratoi Cynllun Datblygu Strategol, Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a pwerau ynglŷn a llesiant economaidd. .</p>	Mewn grym	Mae'r Cyd Bwyllgor Corfforedig wedi ei sefydlu a chymryd cyfrifoldeb am ei waith a rhaglen sefydlu.	Mae aelodau wedi eu briffio ar y rhaglen a'r cynnydd.	
<b>Rhan 6 Perfformiad a Llywodraethu Prif Gynghorau a Dyletswydd Prif Gyngor i adolygu ei berfformiad yn barhaus</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Sefydlu cysyniad o adroddiad perfformiad blynyddol statudol ac ymgynghori fel rhan o'r broses</li> <li>2. Apwyntio "Panel" ar gyfer cynnal asesiad perfformiad Cyngor -</li> <li>3. Angen am osod Amcanion Gwella ( Gwerth Gorau) yn cael ei ddileu</li> </ol>	Mewn grym	<ol style="list-style-type: none"> <li>Pennaeth Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol o ran y trefniadau perfformiad</li> </ol> <ol style="list-style-type: none"> <li>Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ( Swyddog Monitro) i weithredu</li> </ol>	Mae'r mater wedi ei weithredu ac ymgorffori yn nhrefniadau perfformiad a chyfansoddiad y Cyngor.	

	<ol style="list-style-type: none"> <li>4. Gofyn fod i 1/3 aelodau y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fod yn aelodau lleyg gan gynnwys y Cadeirydd -</li> <li>5. Sefydlu ac enwi Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bellach yn statudol</li> <li>6. Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mabwysiadu swyddogaeth trosolwg trefniadau cwynion</li> </ol>		newidiadau Cyfansoddiad 4, 5 a 6.		
<b>Rhan 7 – Uno ac Ailstrwythuro Prif Ardaloedd</b>	Sefydlu fframwaith ar gyfer proses uno cynghorau pe fyddai cynllun o'r fath yn dod ymlaen.	Mewn grym	Prif Weithredwr	Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth er gwybodaeth	Eisoes wedi digwydd
<b>Rhan 8 – Cyllid Llywodraeth Leol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Pwerau i fynnu gwybodaeth yn ymwneud â hereditamentau, gwybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu trethi annomestig,</li> <li>2, Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer Carcharu Dyledwyr y Dreth Gyngor sydd yn ymgorffori mewn Deddf yr hyn sydd eisoes yn weithredol drwy Reoliadau.</li> </ol>	Mewn Grym	Pennaeth Cyllid	Briffio Cyng. a Cab fel rhan o ymwybyddiaeth er gwybodaeth	Eisoes ar waith
<b>Rhan 9 – Amrywiol</b>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Rhoi statws gwarchodaeth prif swyddog statudol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.</li> <li>2. Diddymu y rhwystr ar Swyddog Monitro rhag bod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.</li> <li>3. Darpariaethau ynglŷn ag uno a dad-uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.</li> </ol>	Mewn grym	Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol  Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol ( Swyddog Monitro) i wneud addasiadau mandadol ir' Cyfansoddiad.	Mewn grym ac wedi ei nodi	